

Date • Dyddiad 22 Mehefin 2026
Your ref • Eich cyfeimod SRD/CD
My ref • Fy nghyfeimod
Telephone • Ffôn 01437 764551
Email • Ebost michael.cavanagh@pembrokeshire.gov.uk
www.pembrokeshire.gov.uk / www.sir-benfro.gov.uk



Pembrokeshire County Council Cyngor Sir Penfro

WILL BRAMBLE CBE.
Chief Executive / Prif Weithredwr

STEVEN RICHARDS-DOWNES
Director of Education
Cyfarwyddwr Addysg

Pembrokeshire County Council,
County Hall, HAVERFORDWEST,
Pembrokeshire, SA61 1TP

Cyngor Sir Penfro,
Neuadd y Sir, HWLFFORDD,
Sir Benfro, SA61 1TP

Telephone / Ffôn 01437 764551

Please ask for
Os gwelwch yn dda gofynnwch am
Michael Cavanagh

Annwyl Syr / Fadam

Hysbysiad o Benderfyniad y Cyngor – Cynnig i gau Ysgol Clydau

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu bod Cyngor Sir Penfro, yn ei gyfarfod ddydd Llun 15 Mehefin 2026, wedi ystyried a chymeradwyo'r cynnig cyhoeddedig canlynol:

- i. Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Addysg i gyhoeddi Llythyr Penderfyniad yn cadarnhau cau Ysgol Clydau

Bydd y cynnig yn dod i rym ar 31 Awst 2026 a bydd y disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Bro Preseli (yr ysgol ddalgylch newydd ar gyfer ardal Ysgol Clydau) o 1 Medi 2026.

Cyn dod i'w benderfyniad, ystyriodd y cyngor y sylwadau a gafwyd fel rhan o'r ymgynghoriad statudol a'r 126 o wrthwynebiadau a gafwyd yn dilyn cyhoeddi'r hysbysiad statudol. Ar ben hynny, roedd y cyngor yn fodlon y byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r materion allweddol a nodwyd yn yr achos dros newid.

Mae'r Adroddiad Gwrthwynebiad ar gyfer y cynnig uchod ar gael i'w ddarllen ar wefan Cyngor Sir Penfro drwy ddilyn y ddolen isod.

Cynnig ar gyfer cau Ysgol Clydau – Adroddiad [Cyngor Sir Penfro](#)

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg, a byddwn yn ymateb cyn pen 15 diwrnod gwaith fan bellaf. Byddwn yn ymateb yn yr un iaith â'r ohebiaeth sy'n dod i law (oni bai eich bod yn gofyn i ni wneud yn wahanol). / We welcome correspondence in Welsh and English, and will respond within a maximum of 15 working days. We will respond in the language in which the correspondence is received (unless you ask us to do otherwise).

Os am gael copi mewn print bras, mewn fformat hawdd ei ddeall, ar ffurf Braille neu sain, neu mewn iaith arall, cysylltwch â Chyngor Sir Penfro ar y rhif uchod. / For a copy in large print, easy-read, Braille, audio, or an alternative language, please contact Pembrokeshire County Council on the number above.

Wrth benderfynu ar y cynnig, ystyriodd y cyngor y ffactorau canlynol fel y'u hamlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018):

Ansawdd a Safonau Addysg

Mae'r cyngor o'r farn y byddai'r cynnig yn sicrhau y byddai safonau a chynnydd disgyblion yn parhau i wella oherwydd cyfleoedd gwell i ddatblygu cynnydd grwpiau o ddysgwyr a sgiliau mewn lleoliad 3-19 oed. Mae Estyn o'r farn y byddai'r cynnig yn debygol o gynnal y safonau addysg yn yr ardal, o leiaf, ac felly mae'r cyngor yn fodlon na fyddai gweithredu'r cynnig hwn yn cael effaith negyddol ar safonau a chynnydd yn gyffredinol.

Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

Mae'r cyngor yn nodi lleoedd gwag sylweddol a niferoedd disgyblion sy'n gostwng, ochr yn ochr â phatrymau sefydledig o ddewis rhieni ar gyfer ysgolion eraill. Mae darpariaeth addas ar gael o fewn pellter teithio rhesymol, a bydd disgyblion cymwys yn cael cludiant am ddim. Felly mae'r cyngor o'r farn y bydd mynediad at addysg yn parhau i fod yn briodol ac yn rhesymol.

Adnoddau addysg

Mae'r cyngor wedi dod i'r casgliad bod yr ysgol yn gweithredu ar gost gymharol uchel fesul disgybl a bod parhau â'r ddarpariaeth hon gyda niferoedd isel o ddisgyblion yn ddefnydd aneffeithlon o adnoddau. Er gwaethaf costau trafnidiaeth uwch, mae'r cynnig yn golygu bod modd defnyddio adnoddau yn fwy effeithiol ac mae'n cefnogi cynaliadwyedd ariannol hirdymor y ddarpariaeth addysg ar draws yr awdurdod.

Ffactorau penodol wrth ystyried cau ysgolion

Er y bydd gweithredu'r penderfyniad yn arwain at gau Ysgol Clydau, mae'r cyngor wedi ystyried y ffactorau penodol sy'n berthnasol i gau ysgolion, gan gynnwys yr effaith ar y gymuned, argaeledd darpariaeth amgen a chludiant. Cafodd y rhain i gyd eu dogfennu fel rhan o'r broses ymgynghori. Er bod y cyngor yn cydnabod yr effeithiau a nodwyd, yn enwedig mewn perthynas â chymuned a theithio, mae'n dod i'r casgliad nad yw'r rhain yn drech na manteision addysgol a strategol y cynnig.

Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig

Mae Ysgol Clydau wedi'i dynodi'n ysgol wledig yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion (2018) ac felly mae'r cynnig wedi'i ddatblygu a'i ystyried gan roi sylw dyledus i'r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig, fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Wrth lunio barn, ystyriodd y Cyngor yn ofalus: yr effaith ar ansawdd a safonau mewn addysg; yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion; adnoddau a goblygiadau ariannol eraill; ffactorau cyffredinol eraill, a ffactorau penodol yn ymwneud ag opsiynau amgen. Ystyriodd hefyd: effeithiau cymunedol, gan gynnwys effaith y cynnig ar y Gymraeg yn y gymuned ac o fewn y lleoliadau addysgol; effeithiau ar gydraddoldeb, ac effaith trefniadau teithio gwahanol.

mae'n dod i'r casgliad, ar y cyfan, bod yr achos dros newid yn drech na'r rhagdybiaeth, a bod y cynnig yn cynrychioli ymateb angenrheidiol a chymesur i'r heriau a nodwyd.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, reading "Steven Richards-Downes". The signature is written in a cursive, flowing style.

Steven Richards-Downes
Cyfarwyddwr Addysg